RHIFYN
ISSUE
11
16.07.19

Llais Llantrisant



DYDDIADAU ALLWEDDOL
KEY DATES

16/17/18.07.19 - Sioeau CA2 (1:00yp/pm)
KS2 shows (1:00yp/pm
19.07.19 - Diwrnod olaf y flwyddyn
Last day of the year
02.09.19 - HMS - Staff yn dychwelyd
INSET - Staff return
03.09.19 - Plant yn dychwelyd
Children return
21.09.19 - Penwythnos Llangrannog (Bl. 5 a 6)
Llangrannog Weekend (Yr. 5 & 6)

GWAITH ADEILADU
BUILDING WORKS

Yn ystod gwyliau'r Haf, bydd nifer o brosiectau adeiladu ac atgyweirio yn cael eu gwneud ar dir ac adeiladau'r ysgol. Edrychwn ymlaen at gael to yr ysgol wedi'i drwsio. Gobeithio ni fydd yn gollwng ar draws yr ysgol gyfan bob tro iddi fwrw glaw o hyn ymlaen! Hefyd, bydd RCT yn adleoli caban yr ysgol a pharatoi'r tir wrth ochr y caban i dderbyn ail gaban yn ystod Tymor yr Hydref. Bydd hyn yn ein galluogi i dyfu yn y dyfodol. Y gobaith yw y bydd yr holl waith yma, yn ogystal â chwpl o brosiectau bach eraill, wedi'i gwblhau yn ystod y gwyliau felly croeswch eich bysedd neu bydd angen i ni weithio o gwmpas hyn fis Medi, efallai!

During the Summer break a number of maintenance and building projects will be carried out on the school grounds and buildings. We look forward to the school roof being fixed and hope that it will no longer leak across the whole school each time it rains! Also, RCT will be relocating the Portakabin and preparing the land next to it to receive a second Portakabin in the Autumn Term. This will enable us to grow as a school in the future. It is hoped that all this work, and a few other minor projects, will be completed during the school holidays so cross your fingers or we might all have to work around this in September!



DIOLCH A MWYNHEWCH Y GWYLIAU!
THANK YOU AND ENJOY THE SUMMER BREAK!



Hoffai Staff, disgyblion a Llywodraethwyr yr ysgol ddiolch i bawb am eu gwaith caled a chefnogaeth unwaith eto eleni. Blwyddyn academaidd oedd wedi dechrau gyda galwad ffôn oddi wrth ein cyfeillion yn Estyn am hanner awr wedi wyth ar fore dydd Llun, Medi'r 3ydd, diwrnod cyntaf Tymor yr Hydref! Cyfnod prysur iawn ond cyfnod i hyrwyddo holl waith y staff a'r plant a llwyddiannau'r ysgol. Bydd yr ysgol yn cau eleni am 3:30 yp ar ddydd Gwener, Gorffennaf 19eg. Felly, mwynhewch wyliau'r Haf a gwelwn ni chi ar ddydd Mawrth, Medi'r 3ydd.
The Staff, pupils and Governors would like to thank everyone for their hard work and support once again this year. An academic year which began with a telephone call from our friends at Estyn at half past eight on Monday morning, September 3rd, the first day of the Autumn Term! A very busy period, but one in which to promote all the staff and the pupils' hard work and achievements. School closes for the Summer break at 3:30 pm on Friday, July 19th. So, enjoy this year's Summer break and we'll see you on Tuesday, September 3rd.

YMWELIADAU AG YSGOL LLANHARI
VISITS TO YSGOL LLANHARI

Cynnes oedd y croeso eto yn ddiweddar pan aeth plant Blwyddyn 5 draw i Ysgol Llanhari ar gyfer diwrnod o chwaraeon hwyl wedi'i drefnu gan @UrddMG a diwrnod Dyniaethau. Hefyd, aeth Blwyddyn 6 draw am y tro olaf ar gyfer diwrnod Addysg Gorfforol.

Year 5 had a very warm welcome once again at Ysgol Llanhari recently when they twice visited for a fun sports day organized by @UrddMG and a Humanities day. Also Year 6 visited for the final time for a PE day.









Y GRhA

THE PTA

Diolch yn fawr i'r GRhA am eu holl waith eleni oedd wedi diweddu gyda'r Ddawns Haf yn ngwesty'r Hilton, Caerdydd. Bydd tri aelod o'r pwyllgor yn ymddiswyddo eleni, felly hoffai'r ysgol ddiolch i Mr Edwards, Mrs Miles and Mr Hulse am eu gwaith di-flino o godi arian at blant yr ysgol. Eleni, diolch i'r holl gefnogaeth, codwyd dros £2000 ar y noson at gronfa'r GRhA. Swm anghredadwy arall!

Many thanks to the PTA for their hard work this year which culminated in the Summer Ball in the Hilton Hotel, Cardiff. Three members of the committee will stand down this year. School would like to thank Mr Edwards, Mrs Miles and Mr Hulse for their tireless work to raise funds for the children. This year, thanks to all the support at many events, over £2000 was raised on the evening for the PTA funds. Another incredible amount!



HWYL FAWR

GOOD BYE

Ers cyhoeddi rhifyn 10 o 'Llais Llantrisant', mae aelod arall o staff yr ysgol wedi derbyn swydd newydd ar gyfer mis Medi. Diolch yn fawr iawn a phob lwc i Miss Naomi Jones, Cynorthwyydd Addysgu Lefel 3 yn yr ysgol.

Since publishing Issue 10 of 'Llais Llantrisant' another member of staff has accepted a new post for September. Many thanks and all the best to Miss Naomi Jones, a Level 3 Teaching Assistant at school.



Cofiwch ymweld â / *Visit us*: www.yggglantrisant.cymru

CLYBIAU CHWARAEON

SPORTS CLUBS

Diolch yn fawr i'r rhieni a ddaeth i chwarae pêl-droed a phêl-rwyd gyda'r plant ar ôl ysgol ar 10.07.19. Diolch i Mrs Hulse a Mr Jones am drefnu'r gemau a diolch i'r rhieni am eu cefnogaeth.

Many thanks to the parents who came along to school on 10.07.19 to play football and netball games with the children. Thanks, also, to Mrs Hulse and Mr Jones for arranging the games and to the parents for their support.





DOSBARTHIADAU MEDI 2019

CLASSES SEPTEMBER 2019

Erbyn hyn, mae pawb wedi cael gwybod ym mha ddosbarth bydd y plant fis Medi. Bydd Dosbarthiadau 1 i 6 ar y llawr gwaelod gyda Dosbarthiadau 7 i 10 ar y llawr uchaf. Bydd y plant yn cael cyfle i ymweld â'u dosbarthiadau newydd cyn diwedd y flwyddyn felly dylai pawb wybod ble i fynd am 8:50 yb ddydd Mawrth, Fedi'r 3ydd!

By now, everyone has been informed of the children's new classes for September. Classes 1 to 6 will be on the ground floor with Classes 7 to 10 on the upper floor. The children will have the opportunity to visit their new classrooms before the end of the year so everyone should know where to go at 8:50 am on Tuesday, September 3rd!

APP YR YSGOL

THE SCHOOL APP



Ar ôl i ni fuddsoddi yn yr APP newydd i anfon negeseuon at holl rieni'r ysgol, cawsom wybod yn ddiweddar y bydd y cwmni yn newid yr APP yn ystod Tymor yr Hydref! Felly, gofynnir i bawb gadw llygaid mas am y fersiwn newydd os gwelwch yn dda. Mae'n debyg, yn hytrach na chi yn dewis pa grwpiau hoffech chi berthyn iddynt, yr ysgol fydd yn gorfod mewnbynnu pob plentyn i bob grŵp - tipyn o dasg! Disgwyliwn ychydig o broblemau ar y dechrau felly diolch am eich amynedd! Unwaith i ni dderbyn rhagor o wybodaeth byddwn yn eich hysbysu.

After having invested in the new APP to send messages to all parents, we were informed recently that the company is changing the APP during the Autumn Term! So, everyone is kindly asked to keep an eye out for the update please. Apparently, rather than you chosing which groups you would like to join, school will now have to input all children into each group - quite a task! We expect some problems initially so thank you for your patience. Once we have further information we shall let you know.

BLWYDDYN 6 - HWYL FAWR A PHOB LWC

YEAR 6 - FAREWELL AND GOOD LUCK

Wedi wyth mlynedd ers i ddisgyblion Blwyddyn 6 ymuno â ni yn y Dosbarth Meithrin (neu yn ystod y cyfnod yma) mae'r amser wedi dod i ni ffarwelio â nhw. Pob lwc, blant, ac edrychwn ymlaen at glywed eich hanes chi yn yr ysgol uwchradd, a chofiwch, rydym yn clywed am bob dim! ☺

After eight years since Year 6 joined us in the Nursery Class (or during this period) the time has come for us to bid farewell. Good luck, everyone, and we look forward to hearing all about you in secondary school, and remember, we get to hear about everything! ☺

